Annwyl Rieni / Gofalwyr , 10/02/22

Mae'n amser cyffrous i ysgolion Cymru. Mae gan pob ysgol y cyfrifoldeb o ysgrifennu cwricwlwm sy'n bersonol iddynt erbyn Medi 2022. Gwraidd y cwricwlwm ydy'r Pedwar Diben, elfennau sy'n tanseilio holl ddysgu'r disgyblion o 3 i 18 oed.

Y pedwar diben

Pwrpas cwricwlwm yw galluogi dysgwyr i ddatblygu fel:

- dysgwyr uchelgeisiol, galluog, sy'n barod i ddysgu gydol eu bywydau
- cyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith
- dinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd
- unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd cyflawn fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas

Wythnos nesaf yr ydym yn cael wythnos i lansio'r 4 Diben o fewn yr ysgol ac fe fydd y plant yn gweithio ar wahanol weithgareddau i ddod i ddeall rhain yn well. Byddem yn rhannu mwy o wybodaeth yn dilyn hyn ac fel mae'r tymor yn mynd yn ei flaen. Bydd dydd Llun i ddydd Iau yn cael ei neilltuo ar gyfer un o'r 4 Diben. Dydd Iau fydd y diwrnod ar gyfer unigolion iach a hyderus pryd y byddem yn croesawu Wendy Ostler i'n plith ar gyfer sesiynau ioga ym mhob dosbarth. Felly wythnos nesaf gofynnwn i bawb ddod yn eu gwisg ysgol pob dydd gan wisgo esgidiau cyfforddus ac i ddod yn eu dillad addysg gorfforol dydd Iau.

Am fwy o wybodaeth am y cwricwlwm newydd gweler y ddolen isod:

cwricwlwm-newydd-yng-nghymru-canllaw-ar-gyfer-plant-pobl-ifanc-a-theuluoedd.pdf (gov.wales)

Dear Parents/ Carers,

It is an exciting time for schools across Wales. Every School has a responsibility to write a curriculum that is personal to them by 2022. The Foundation of this new curriculum are the Four Purposes which underpin Learning from the age of 3 up to 18.

The four purposes

The purpose of a curriculum is to enable learners to develop as:

- *ambitious, capable learners, ready to learn throughout their lives*
- *enterprising, creative contributors, ready to play a full part in life and work*
- *ethical, informed citizens of Wales and the world*
- *healthy, confident individuals, ready to lead fulfilling lives as valued members of society*

Next week we will be launching the Four Purposes within the school and the children will work through various activities to understand them better. We will be sharing more information following next week and as the term progresses. Monday to Thursday will be a day for each of the Four Purposes. Thursday will be the day for healthy and confident individuals when we will welcome Wendy Ostler here to lead a yoga session in each class.

Next week could you please send your child to school in their school uniform and comfortable footwear every day except Thursday when P.E. clothes will be required.

For more information regarding the new curriculum please see the link below:

a-new-curriculum-in-wales-a-guide-for-children-young-people-and-families.pdf (gov.wales)

Cofion / *Regards,*

Eifiona Price Williams